



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd Gwynedd Archaeological Trust

Swydd Ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Archaeolegydd Rheoli Datblygu


Adran: Rheoli Treftadaeth

Yn atebol i: Uwch Archaeolegydd Cynllunio

Yn gyfrifol am: Amherthnasol

Prif Ddiben y swydd: cynorthwyo'r Uwch Archaeolegydd Cynllunio wrth ddarparu gwasanaeth cynllunio rhanbarthol cynhwysfawr.

Strwythur Sefydliadol



Dyletswyddau a chyfrifoldebau:

Cynorthwyo'r Uwch Archaeolegydd Cynllunio yn y ffyrdd canlynol:

1. Darparu cyngor i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol, Cadw a chyrrff perthnasol eraill ar oblygiadau cynigion datblygu i'r amgylchedd hanesyddol sydd â'r potensial i

effeithio ar safleoedd, henebion, adeiladau, tirweddau hanesyddol, parciau a gerddi wedi eu dynodi a heb eu dynodi.

2. Darparu cyngor archaeolegol arbenigol ar waith achos cynllunio mewn perthynas â'r adnoddau archaeolegol hysbys a phosibl ledled gogledd orllewin Cymru.
3. Cefnogi'r Uwch Archaeolegydd Cynllunio wrth roi cyngor cynllunio archaeolegol arbenigol i brosiectau seilwaith mawr.
4. Cyfrannu at ddarparu cyngor cynllunio strategol mewn perthynas â chynlluniau datblygu lleol, canllawiau cynllunio atodol a dogfennau polisi rhanbarthol a chenedlaethol eraill.
5. Darparu cyngor ar oblygiadau archaeolegol cynlluniau datblygu a ganiateir, gan gynnwys cysylltu â chwmnïau cyfleustodau, awdurdodau priffyrdd ac eraill i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, polisi a chanllawiau mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.
6. Cysylltu â datblygwyr, ymgynghorwyr ac eraill a all effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, polisi a chanllawiau perthnasol.
7. Trefnu a mynychu cyfarfodydd safle ac ymweliadau maes fel sy'n ofynnol.
8. Nodi cwmpas prosiectau archaeolegol a arweinir gan ddatblygiad, gan gynnwys darparu briffiau dylunio manwl fel sy'n ofynnol, a monitro prosiectau o'r fath i sicrhau cydymffurfiaeth â chwmpas gwaith cytunedig, gofynion archaeolegol a safonau Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (ClfA).
9. Darparu tystiolaeth mewn apeliadau cynllunio ac ymchwiliadau cyhoeddus fel sy'n ofynnol ac adolygu cyngor a pharatoi proflenni tystiolaeth cyn gwrandawiadau o'r fath.
10. Ymateb fel sy'n ofynnol i ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd, y cyfryngau a phartïon eraill sydd â diddordeb mewn materion yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol sy'n codi o gynigion datblygu.
11. Ymgymryd â dyletswyddau penodol o fewn yr Ymddiriedolaeth fel sy'n ofynnol gan y Prif Archaeolegydd.
12. Cyflawni'r dyletswyddau eraill hynny a benodir gan yr Ymddiriedolaeth o bryd i'w gilydd.

Cyfrifoldebau Cyffredin:

1. Glynu at safonau uchel o ymddygiad moesegol a chyfrifol wrth gynnal eich gwaith fel y'u disgrifir yng Nghod Ymddygiad ClfA.
2. Gweithredu o fewn polisiâu a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth fel y'u disgrifir yn natganiadau polisi'r Ymddiriedolaeth.
3. Delio â gwybodaeth drwy roi sylw i gyfrinachedd a diogelu data.
4. Darparu cymorth i aelodau eraill o staff fel sy'n ofynnol a sefydlu perthnasoedd gweithio da yn fewnol ac yn allanol.
5. Cyfrannu at adnabod gofynion hyfforddiant ac ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad yn unol â'r arfarniadau cytunedig.
6. Mynychu cyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth yn ôl y gofyn.
7. Sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau gweinyddol ac ariannol yr Ymddiriedolaeth.
8. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ddiogelu a hybu lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus ac mae'n disgwyl i bob aelod o staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn.